**wella darpariaeth a meithrin gallu ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar draws y fwrdeistref sirol Blaenau Gwent.**

## Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion.  Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

## Crynodeb/Casgliad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cynnig cynyddu'r capasiti ar gyfer Canolfannau Adnoddau ADY ac ASD ar draws y Fwrdeistref Sirol mewn rhai ysgolion cynradd ac uwchradd. Bydd hyn yn cynnwys sefydlu a newid darpariaethau ADY mewn nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd yn y Fwrdeistref Sirol. Bydd y cynnig i gynyddu lleoedd ASD ac ADY o 61 i 86 ar draws ysgolion cynradd a chynyddu'r ddarpariaeth mewn ysgolion uwchradd o 62 i 80 lle yng Nghyfnod 1 (yn cynnwys 15 lle cyfrwng Cymraeg). Ymhellach mae'r cynigion yn cynnwys y potensial i gynyddu lleoedd gan 40 arall yng Nghyfnod 2 (yn cynnwys darpariaeth ysgol Ffydd). Daw hyn i rym mewn camau o fis Medi 2023 dros y 5 mlynedd nesaf.

Mae Estyn o'r farn bod y cynnig hwn yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth, o leiaf, gyda'r posibilrwydd o wella mynediad at y ddarpariaeth yn y tymor byr a'r tymor canolig.

Amlygu sut mae arweinwyr yn bwriadu sicrhau'r lefelau staffio sydd eu hangen ar gyfer y cynnydd mewn capasiti ac er mwyn cynnal ansawdd y profiadau

Amlygu sut bydd yr aelodau staff hyn yn cael eu hyfforddi'n briodol i weithio gyda charfan gymhleth o bobl ifanc yn enwedig yn yr ysgolion sydd angen gwella agweddau o addysgu

Amlygu y modd na chaiff capasiti arwain ei effeithio'n negyddol gan y newidiadau hyn yn enwedig yn yr ysgolion sydd angen gwella agweddau o arweinyddiaeth

Yn gyffredinol, nid yw'r ddogfen yn manylu digon ar unrhyw waith neu gefnogaeth benodol fyddai'n rhaid i'r cyngor ddarparu i ysgolion unigol yn y cynllun.